Rhwydd hynt trwy ddechrau da

Recriwtio a Sefydlu Ymddiriedolwyr Adroddiad Ymchwil

Gorffennaf 2005

COMISIWN ELUSENNAU

Y Comisiwn Elusennau yw'r rheolydd annibynnol ar gyfer gweithgaredd elusennol. Mae hwn yn un o gyfres o adroddiadau sy'n cyflwyno ein profiad gwaith achosion, wedi'i ategu gan waith ymchwil ychwanegol. Diben yr adroddiadau yw helpu cynyddu dealltwriaeth o bwnc arbennig. Maen nhw'n rhan o'n cenhadaeth i helpu elusennau gael yr effaith fwyaf, cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol, hybu dyfeisgarwch a gwella effeithiolrwydd.

Tabl Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad **1**

Crynodeb gweithredol **2**
Recriwtio a dewis 2
Sefydlu 3

Casgliadau **10**
Ymddiriedolwyr a rheolaeth 10
Paratoi i recriwtio 12
Y broses recriwtio 15
Cael hyd i'r bobl iawn 15
Amrywiaeth 18
Disgrifio'r rôl 21
Pobl sydd wedi'u hanghymwyso rhag gweithredu fel ymddiriedolwyr 23

Sefydlu 27
Gwybodaeth y mae ei hangen ar bob ymddiriedolwr newydd 27
Hyfforddiant i ymddiriedolwyr newydd 31

Atodiad A - Rhestr wirio ymddiriedolwyr **33**
Atodiad B - Technegau ymchwil a chasgliadau'r arolwg **36**
Atodiad C - Rhestr termau **41**
Atodiad CH - Adnoddau i ymddiriedolwyr **42**
Atodiad D - Llyfryddiaeth **51**
Diolchiadau **34**

Cyflwyniad

Mae elusennau'n bodoli i greu cymdeithas well. Maen nhw'n gweithredu at sawl diben gwahanol, ac mewn sawl ffordd. Ond maen nhw wedi'u huno gan eu gweledigaeth o fyd heb dlodi, creulondeb, clefyd, anghyfiawnder neu anghydraddoldeb. Yng Nghymru a Lloegr, bu elusennau yn brif ysgogiad newid cymdeithasol ers tro byd. Y tu ôl i elusennau mae eu hymddiriedolwyr, sydd â'r prif gyfrifoldeb am eu gweinyddu.

Mae'r ymddiriedolwyr hynny yn gwneud gwahaniaeth enfawr i elusennau a'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu, ac maen nhw'n gwneud gwaith gwych. Maen nhw'n neilltuo amser ac ymdrech, heb dâl yn bennaf, er mwyn sicrhau ansawdd gwasanaeth uchel i ddefnyddwyr a'r gymuned ehangach.

Yn ystod ein gwaith achosion, gwelwn enghreifftiau niferus o arfer dda mewn elusennau o bob lliw a llun. Ond pan fydd pethau'n mynd o'i le ac mae'r Comisiwn yn gweithredu, yn anffodus gwelwn mai gwreiddyn y broblem yn aml yw'r drefn lywodraethu a ddarperir gan yr ymddiriedolwyr.

Recriwtio a sefydlu ymddiriedolwyr yn effeithiol yw un o egwyddorion sylfaenol y cod sydd ar ddod sef Cod Rheolaeth y Sector Gwirfoddol a Chymunedol[1]. Mae'r Cod yn datgan, fel mater o arfer dda, bod rhaid i fwrdd ymddiriedolwyr gael ystod eang o sgiliau, profiad a gwybodaeth er mwyn gweinyddu sefydliad yn effeithiol. Mae hefyd yn datgan y dylai ymddiriedolwyr sicrhau eu bod nhw'n cael y cyflwyniad, yr hyfforddiant a'r cymorth parhaus y mae eu hangen arnynt i ymgymryd â'u dyletswyddau yn effeithiol.[1]

Felly, mae'n hanfodol bod elusennau yn cael recriwtio, dewis a sefydlu ymddiriedolwyr newydd yn iawn. Dyna pam y cyhoeddwyd Recriwtio, Dewis a Sefydlu Ymddiriedolwyr[2] yn 2002, y cyntaf yn ein cyfres o Astudiaethau Rheoleiddiol.

Yn yr astudiaeth honno dangoswyd arfer dda ac esboniwyd bod lle i wella.

Gwnaethom ymrwymiad i atgyfnerthu ein harweiniad presennol yn y maes hwn gan greu un llyfryn. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'n cyfres CC o daflenni[3]. Dywedwyd hefyd y byddem yn diweddaru ein cyhoeddiad Nodweddion Elusen Effeithiol[4]. Rydym wedi gwneud hyn a recriwtio a sefydlu yw un o'r meysydd rydym yn ei ystyrid pan fyddwn yn ymweld ag elusennau fel rhan o'n rhaglen Ymweliadau Adolygu.

Ein cyhoeddiadau am ymddiriedolwyr a'u cyfrifoldebau[5] yw'r rhai y bydd ein cwsmeriaid yn gofyn amdanynt yn fwyaf aml, sy'n adlewyrchu awydd y sector i ymddiriedolwyr "gael pethau'n iawn".

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno casgliadau gwaith ymchwil newydd a wnaed ar brosesau a chanfyddiadau am recriwtio, dewis a sefydlu ymddiriedolwyr. Fe welwch gasgliadau ein harolwg yn llawn yn Atodiad A yr adroddiad. Os yw'n bosib, rydym yn defnyddio enghreifftiau i ddangos arfer dda. Rydym hefyd yn cyfeirio at feysydd lle y gall ein cyhoeddiadau eraill roi arweiniad penodol i ymddiriedolwyr. Nid yw'r adroddiad hwn yn disodli'r adroddiad cychwynnol, ond mae'n datblygu'r pwnc a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r adroddiad hwnnw.

Mae wedi'i anelu at bob ymddiriedolwr elusen, ac eraill sy'n ymwneud â phenodi ymddiriedolwyr. Gall yr egwyddorion a ddefnyddir fod yn berthnasol hefyd i elusennau sy'n recriwtio gweithwyr allweddol a gwirfoddolwyr.

1 Cyflwynwyd cynnig ar gyfer cod rheolaeth yn 2004 yn dilyn trafodaethau rhwng NCVO, Sefydliad yr Ysgrifenyddion a'r Gweinyddwyr Siartredig (ICSA), Cymdeithas Prif Weithredwyr Cyrff Gwirfoddol (ACEVO), Rhwydweithiau Ymddiriedolwyr Elusennau a'r Comisiwn Elusennau; ac ymgynghoriad dilynol dan arweiniad NCVO ac ICSA.
2 Recriwtio, Dewis a Sefydlu Ymddiriedolwyr (RS1)
3 Cael Hyd I Ymddiriedolwyr Newydd: Yr hyn y mae angen i elusennau wybod (CC30)
4 Nodweddion Elusen Effeithiol (CC60)
5 Yn fwyaf arbennig Yr ymddiriedolwr hanfodol: yr hyn y mae angen i chi wybod (CC3) a Recriwtio, Dewis a Sefydlu Ymddiriedolwyr (RS1)

Crynodeb gweithredol

Bydd y rhan fwyaf o elusennau yn recriwtio elusennau o bryd i'w gilydd. I rai, bydd hyn yn digwydd bob blwyddyn; bydd eraill yn gwneud hyn yn llai aml.

Mae'r broses o gael hyd i ymddiriedolwyr newydd a'u croesawu i fwrdd sefydledig yn gyfle gwych i werthuso a gwella effeithiolrwydd elusen.

Yn ein profiad ni, mae byrddau ymddiriedolwyr yn fwy tebygol o:

- recriwtio'n llwyddiannus os ydynt yn gwneud hynny mewn ffordd agored a thryloyw, gan ofalu i beidio â gorbwysleisio neu danbwysleisio'r cyfrifoldebau;
- gweithredu'n llwyddiannus os ydynt yn cynnig rhaglen sefydlu gynhwysfawr sy'n cynnig y wybodaeth allweddol y mae ei hangen ar ymddiriedolwyr newydd er mwyn gweithredu'r elusen;
- ennyn ffydd a pharch eu cleientiaid a'r gymuned ehangach os ydynt yn dangos amrywiaeth yn yr ystyr ehangach o sgiliau, oedran, rhyw, hil a chefndir.

Mae ein gwaith achosion yn dangos bod methu â rhoi digon o sylw i rai meysydd allweddol yn y broses recriwtio yn gallu ac yn arwain at broblemau. Os yw problemau o'r fath yn codi, gwreiddyn y broblem yn aml yw'r drefn lywodraethu a ddarperir gan yr ymddiriedolwyr. Yn aml, mae anawsterau'n codi oherwydd bod yr ymddiriedolwyr heb ddeall neu wybod am eu cyfrifoldebau; neu nid oes ganddynt wybodaeth sylfaenol am strwythur a chylch gorchwyl yr elusen.

Recriwtio a dewis

Er ein bod wedi gweld enghreifftiau niferus o arfer dda, mae gwaith ymchwil ar gyfer ein hadroddiad cynharach wedi dangos mai prin yw'r elusennau sy'n rhoi digon o sylw i'r broses recriwtio a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig. Rydym yn falch i weld o'n gwaith ymchwil newydd fod y maes hwn wedi gwella yn gyffredinol.

Er enghraifft:

- erbyn hyn mae canran uwch o elusennau yn cynnal archwiliad sgiliau ymddiriedolwyr cyn recriwtio (17% o'i gymharu ag 11% yn 2001);
- erbyn hyn mae canran uwch o elusennau yn defnyddio disgrifiadau swyddi i ddenu pobl sy'n meddu ar gymwysterau addas (22% o'i gymharu â 18% yn 2001);
- erbyn hyn mae mwy o elusennau mawr iawn[6] yn defnyddio pwyllgor penodol i recriwtio ymddiriedolwyr (16% o'i gymharu â 12% yn 2001).

Yn gyffredinol, mae defnyddio offerynnau o'r fath yn cynyddu gyda maint yr elusen, felly mae dwy ran o dair o elusennau mawr neu fawr iawn yn defnyddio un neu ragor o'r dulliau hyn. Cydnabyddwn y bydd angen dull o weithio mwy ffurfiol a strwythuredig ar elusennau mwy a mwy cymhleth ar gyfer recriwtio. Ond credwn fod elusennau llai hefyd yn elwa o ystyried y materion hyn, er gyda dull o weithio mwy cyfatebol a symlach. Nid oes rhaid i fesurau o'r fath fod yn gostus neu ychwanegu'n sylweddol at lwyth gwaith ymddiriedolwyr.

Er ein bod yn croesawu'r arwyddion hyn o welliant, rydym yn siomedig â'n casgliadau mewn meysydd eraill:

- erbyn hyn mae mwy o elusennau yn profi anawsterau o leiaf weithiau wrth lenwi swyddi gwag ar y bwrdd ymddiriedolwyr (39% o'i gymharu â 31% yn 2001);
- mae defnyddio argymhelliad llafar a phersonol fel dull o ddenu ymddiriedolwyr newydd wedi cynyddu'n sylweddol (81% o'i gymharu â 68% yn 2001).

Yn Recriwtio, Dewis a Sefydlu Ymddiriedolwyr, pwysleisiwyd y gall recriwtio trwy argymhelliad llafar a phersonol yn unig greu bwrdd sydd heb fod yn amrywiol ac sy'n gallu rhoi'r argraff ei fod yn gyfyngedig gan ddieithrio defnyddwyr yr elusen a rhanddeiliaid ehangach. Mae ein gwaith ymchwil newydd wedi dangos bod 66% o elusennau mawr a 72% o elusennau mawr iawn yn ei chael hi'n anodd denu ymddiriedolwyr newydd sy'n meddu ar y sgiliau iawn. Mae'n bosib y bydd elusennau yn gweld bod dulliau ehangach a mwy cynhwysol o recriwtio yn ei gwneud hi'n haws denu'r bobl iawn. Mae bod

6 Gweler Atodiad B am ddiffiniadau o elusennau mawr iawn, mawr, canolig a bach.

yn agored ac yn dryloyw hefyd yn helpu cynyddu ffydd y cyhoedd yn yr elusen yn y tymor hir. Mae rhai enghreifftiau o ddulliau gwahanol i'w gweld yn y prif adroddiad.

- dywedodd 30% o'r elusennau yn yr arolwg eu bod yn ei chael hi'n anodd denu pobl ifanc i wasanaethu fel ymddiriedolwyr.

Ategir hyn gan ein dadansoddiad o fanylion ymddiriedolwyr a gedwir ar ein cronfa ddata, sy'n dangos mai dim ond 0.5% sy'n iau na 24 oed. I'r gwrthwyneb, mae 76% yn 45 oed neu'n hŷn. Unwaith eto, mae'n bosib y bydd rhaid i elusennau sy'n dymuno cynyddu amrywiaeth y bwrdd ymddiriedolwyr feddwl am ddulliau eraill, ehangach o recriwtio.

- Mae canran yr elusennau sy'n cynnal archwiliadau ar ddarpar ymddiriedolwyr wedi gostwng yn sylweddol (23% o'i gymharu â 33% yn 2001).

Mae rhai pobl wedi'u hanghymwyso yn gyfreithiol rhag gweithredu fel ymddiriedolwyr. Disgwyliwn i elusennau wneud yn siŵr bod darpar ymddiriedolwyr yn gymwys i weithredu. Mae lefel archwilio sylfaenol yn hanfodol i unrhyw ddarpar ymddiriedolwr, oherwydd mae'n dramgwydd troseddol i weithredu fel ymddiriedolwr os ydych wedi'ch anghymwyso rhag gwneud hynny. Rhaid cynnal archwiliadau mwy manwl os yw'r ymddiriedolwr yn cael cysylltiad uniongyrchol â phobl sy'n agored i niwed. Mae methu â chynnal archwiliadau ar gymhwyster darpar ymddiriedolwyr yn amlwg ar draws pob un o'r pedwar band incwm, sy'n awgrymu bod hyn yn deillio o fwy na ddiffyg adnoddau yn unig.

Sefydlu

Er nad yw ymddiriedolwyr yn cael eu talu am ymgymryd â'u rôl, nid yw hyn yn golygu eu bod yn 'amaturiaid' neu'n amhroffesiynol. Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asedau a gweithgareddau eu helusen ac mae dyletswydd gyfreithiol arnynt i weithredu'n bwyllog ac o fewn y ffiniau a osodwyd gan ddogfen lywodraethol eu helusen.

Mae'n amlwg y bydd y math o raglen sefydlu sy'n angenrheidiol i ymddiriedolwyr newydd yn amrywio yn ôl maint a natur yr elusen. Ym mhob achos, fel mater o arfer dda, byddem yn disgwyl bod rhai gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn i ymddiriedolwr newydd ymgyfarwyddo ag amcanion a gweithdrefnau'r elusen.

Rydym yn falch bod ein gwaith ymchwil newydd yn dangos y bu peth gwelliant mewn arfer dda yn y maes hwn. Erbyn hyn mae ymddiriedolwyr newydd yn llawer mwy tebygol o gael y wybodaeth allweddol y mae ei hangen arnynt i weithredu mewn modd gwybodus a chyfrifol o gamau cynnar eu hamser gyda'r elusen.

Er enghraifft:

- erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o elusennau - gan gynnwys bron pob elusen fawr - yn cynnig rhywfaint o wybodaeth i ymddiriedolwyr newydd fel rhan o'r broses sefydlu;
- yn arbennig, erbyn hyn mae mwy o elusennau yn rhoi copi o ddogfen lywodraethol yr elusen i ymddiriedolwyr newydd (61% o'i gymharu â 55% yn 2001).

Fodd bynnag, mae lle i wella o hyd. Mae ein casgliadau yn dangos ar draws y pedwar band incwm, nid yw 39% o'r elusennau yn yr arolwg yn rhoi copi o ddogfen lywodraethol yr elusen i ymddiriedolwyr newydd o hyd.

Mae'r ddogfen lywodraethol yn rhan hanfodol o'r broses sefydlu oherwydd mae'n amlinellu amcanion a chyfyngiadau cyfansoddiadol yr elusen. Nid oes rhaid i ddarparu copi i ymddiriedolwyr newydd fod yn gostus neu gymryd llawer o amser. Mynnwn fod angen copi o'r ddogfen lywodraethol ar ymddiriedolwr bob elusen, beth bynnag fo maint neu natur yr elusen, er mwyn iddynt allu ymgymryd â'r rôl yn hyderus.

Croesawn y gwelliant a welwyd mewn rhai meysydd, a gwelwyd rhai enghreifftiau o arfer dda o'r elusennau lleiaf i'r elusennau mwyaf.

Fodd bynnag, byddem yn annog elusennau nad ydynt yn gwneud hynny eisoes i fabwysiadu cynifer â phosib o'r enghreifftiau hyn o arfer dda. Dengys ein profiad eu bod nhw'n gweithio, a'u bod yn gwella gallu byrddau ymddiriedolwyr i weithio'n fwy effeithiol. A gall bwrdd ymddiriedolwyr cytbwys gynyddu effeithlonrwydd yr elusen - ac felly gwella ei chyfraniad at gymdeithas.

Casgliadau

Ymddiriedolwyr a rheolaeth

Ar ddiwedd Mawrth 2005, roedd y Comisiwn yn cadw manylion mwy nag 890,000 o unigolion sy'n gweithredu fel ymddiriedolwyr elusennau cofrestredig ar hyn o bryd. Bydd rhai o'r rhain yn ymddiriedolwyr mwy nag un elusen. Rhyngddynt maen nhw'n gofalu am tua 190,000 o elusennau gydag incwm cyfunedig o fwy na £36 biliwn. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys ymddiriedolwyr elusennau anghofrestredig ac elusennau a esgusodir. At ei gilydd, amcangyfrifwn fod mwy na miliwn o swyddi ymddiriedolwyr ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr.

Mae ymddiriedolaeth yn gyfle i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned. Mae hefyd yn gyfle i ddysgu sgiliau newydd, amrywiol o weithio. Mae rôl gan bob ymddiriedolwr yng ngweithrediad yr elusen, ac nid yw unrhyw ymddiriedolwr yn bwysicach neu'n fwy atebol na'r llall. Er nad yw ymddiriedolwyr yn cael eu talu am eu gwasanaethau fel arfer[7], nid yw hyn yn golygu eu bod yn 'amaturiaid' neu'n amhroffesiynol.

Mae gan ymddiriedolwyr gyfraniad pwysig i'w wneud o ran y ffordd y mae'r elusen yn cefnogi ac yn darparu gwasanaethau i'w defnyddwyr. Os yw elusen yn fach, yn brosiect lleol neu'n enw cyfarwydd yn genedlaethol, ei hymddiriedolwyr sy'n gyfrifol yn y pen draw am reoli a gweinyddu eu helusen. Rhaid iddynt weithredu'n bwyllog bob amser er lles gorau'r elusen a'i defnyddwyr, ac maen nhw'n atebol yn bersonol am reolaeth briodol yr elusen a'i hasedau.

O'n profiad gwaith achosion gwelwn enghreifftiau niferus o arfer dda. Fodd bynnag, gwelwn hefyd pan fydd pethau'n mynd o'i le, gall rheolaeth wael fod yn rhan o'r broblem. Gall yr elusen fynd i drafferthion pan nad yw'r ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, neu nid ydynt yn rhoi sylw priodol i'w cyfrifoldebau.

Er bod ymddiriedolaeth yn fedr sydd, fel unrhyw un arall yn datblygu ymhen amser, mae'n dilyn bod ymddiriedolwr newydd yn fwy tebygol o fod yn effeithiol ac yn hyderus yn ei ddeliadau â'r elusen os yw'r broses recriwtio, dewis a sefydlu yn cael ei gweinyddu'n dda o'r cychwyn.

Dengys ein gwaith ymchwil newydd fod nifer o elusennau o'r bandiau incwm lleiaf i'r mwyaf sydd wedi treulio amser ac ymdrech yn 'cael pethau'n iawn'. Fodd bynnag, mae lle i wella'n sylweddol hefyd. Mae'n amlwg y bydd manylion a chymhlethdod y broses recriwtio a sefydlu yn amrywio yn ôl maint a natur yr elusen, ond fel mater o arfer dda, bydd pob elusen yn adolygu eu gweithdrefnau yn achlysurol er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol.

Bydd rhaglen recriwtio, dewis a sefydlu gadarn a chynhwysfawr sy'n cyfateb i faint yr elusen yn helpu:

- denu'r ymgeiswyr iawn i ategu'r cymysgedd cyfredol o ymddiriedolwyr;
- cynnwys ymddiriedolwyr newydd yng ngweithrediad yr elusen o'r cychwyn;
- galluogi ymddiriedolwyr i dyfu a datblygu yn eu rolau.

Adnoddau[8]

Mae **Recriwtio, Dewis a Sefydlu Ymddiriedolwyr** (RS1) a **Cael Hyd I Ymddiriedolwyr Newydd: Yr hyn y mae angen i elusennau wybod** (CC30) yn rhoi gwybodaeth bellach ar arfer dda a chanllawiau ar recriwtio ymddiriedolwyr.

Mae **Yr ymddiriedolwr hanfodol: yr hyn y mae angen i chi wybod** (CC3) yn ateb rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin sydd gennych o bosib am ymddiriedolaeth a dyletswyddau ymddiriedolwyr.

Mae **Talu Ymddiriedolwyr Elusennau** (CC11, Arweiniad Gweithredol ('OG'92) a **Thâl - Elusennau Bach** (OG205) yn esbonio pryd y gellid a phryd na ellid talu ymddiriedolwyr.

Mae nifer o sefydliadau yn cynnig arweiniad a hyfforddiant i elusennau yn y maes hwn gan gynnwys **NCVO, Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol (NACVS), Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)** a'r **Sefydliad Lleiafrifoedd Ethnig (EMF).**

7 Mae rhai eithriadau. Weithiau, gall y ddogfen lywodraethol wneud darpariaeth benodol i dalu ymddiriedolwyr. Mewn rhai amgylchiadau, gallwn fod yn barod i awdurdodi rhai taliadau. Gweler Talu Ymddiriedolwyr Elusennau (CC11) a Thalu Ymddiriedolwyr (Arweiniad Gweithredol 92) ac Elusennau Bach: Tâl (OG 205) am fanylion pellach.

8 Mae sawl cyhoeddiad y gall ymddiriedolwyr ei ddefnyddio ar recriwtio, dewis a sefydlu, a sampl bach yn unig yw'r rhestrau hyn. Maen nhw'n cynnig man cychwyn da. Os nad ydynt wedi'u nodi yma, fe welwch fanylion cyswllt pob sefydliad y sonnir amdanynt yn Atodiad Ch.

Paratoi i recriwtio

Prif gasgliadau'r arolwg[9]

- o erbyn hyn mae 44% o'r elusennau mawr neu fawr iawn yn yr arolwg yn cynnal archwiliad sgiliau ymddiriedolwyr wrth baratoi i recriwtio (41% yn 2001) - er bod nifer yr elusennau bach (4%) a chanolig (16%) sy'n cynnal archwiliad yn isel iawn unwaith eto.
- o erbyn hyn mae 22% o'r holl elusennau yn yr arolwg yn paratoi disgrifiad swydd ymddiriedolwr (2001: 18%). Mae'r tebygolrwydd o hyn yn digwydd yn cynyddu gyda maint yr elusen.

Bydd rhaid i'r rhan fwyaf o elusennau recriwtio ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd. Bydd rhai yn gwneud hyn yn flynyddol; mae'n bosib y bydd angen i eraill recriwtio yn achlysurol yn unig[10].

Os yw recriwtio yn gyfrifoldeb yr ymddiriedolwyr sy'n bod neu os yw trefniadau eraill yn gymwys (er enghraifft, ethol neu enwebu gan yr aelodaeth), mae rôl glir gan ymddiriedolwyr i'w chwarae wrth arolygu proses agored ac effeithlon.

Mae dogfen lywodraethol yr elusen yn fan cyfeirio cyntaf hanfodol. Yn aml gwelwn broblemau pan nad yw'r elusen wedi gwneud yn siŵr bod ei gweithdrefnau recriwtio yn bodloni telerau unrhyw amodau yn y ddogfen lywodraethol. Er mwyn gwneud yn siŵr bod amser, ymdrech ac adnoddau yr elusen heb gael eu gwastraffu, y man cychwyn ar gyfer recriwtio yw darllen y rheolau yn y ddogfen lywodraethol.

Yn arbennig:

- A oes nifer mwyaf neu nifer lleiaf o ymddiriedolwyr?
- Sut dylen nhw gael eu penodi?
- Am faint allan nhw aros yn y swydd?

Mae'n ddefnyddiol i'r ymddiriedolwyr ystyried nawr ac yn y man a yw'r rheolau hyn yn briodol o hyd. Er enghraifft, efallai nad oes digon o ymddiriedolwyr i rannu'r llwyth gwaith - neu efallai fod y bwrdd mor fawr gan ei wneud yn anhylaw. Gall newid bach i'r ddogfen lywodraethol gynyddu effeithiolrwydd yr elusen.

Yn ein profiad ni, er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae'n rhaid i fwrdd ymddiriedolwyr gael cymysgedd amrywiol o sgiliau, cefndiroedd a phrofiadau. Yn ogystal â sgiliau proffesiynol megis sgiliau ariannol, cyllid a rheolaeth, bydd elusen hefyd yn elwa o bobl:

- gyda phrofiadau a phersbectifau bywyd amrywiol;
- sy'n cynrychioli'r rhanddeiliaid y mae'n gweithio â nhw; a/neu
- sy'n meddu ar ddealltwriaeth o reolaeth ac sy'n gallu meddwl yn strategol.

O bryd i'w gilydd, mae'n syniad da i'r elusen ymgymryd â dadansoddiad o'r sgiliau y mae eu hangen ar y bwrdd i weinyddu'r elusen yn llwyddiannus. Yna mae'n bosib edrych ar gyfansoddiad presennol y bwrdd i weld a oes unrhyw sgiliau allweddol yn eisiau. Mae swydd wag ar y bwrdd yn amser delfrydol i'r ymddiriedolwyr eraill gyfrannu syniadau a brwdfrydedd newydd a sicrhau bod y corff ymddiriedolwyr yn parhau i fod yn ffres.

Os yw dogfen lywodraethol yr elusen yn datgan bod rhaid i rai neu bob un o'r ymddiriedolwyr ymddeol ar ôl cyfnod penodol yn y swydd, bydd yn fuddiol i'r bwrdd ymddiriedolwyr ystyried yr effaith y bydd colli sgiliau a phrofiad yr ymddiriedolwyr hynny yn ei chael ar weithrediad yr elusen. Os ydynt yn ymwybodol y bydd hyn yn digwydd, byddant yn gallu cynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer y dyfodol.

9 Casgliadau llawn yr arolwg i'w gweld yn Atodiad B.

10 Hyd yn oed os nad yw dogfen lywodraethol yr elusen yn dweud bod rhaid i ymddiriedolwr ymddiswyddo ar ôl cyfnod arbennig, dylai'r bwrdd ystyried o bryd i'w gilydd a allai recriwtio ymddiriedolwyr newydd gynnig syniadau newydd a gwella effeithiolrwydd yr elusen.

Astudiaeth achos

Mae Hosbis St Oswald yn elusen fawr iawn a leolir yng ngogledd ddwyrain Lloegr sy'n darparu cymorth a gofal arbenigol i oedolion a phlant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau.

Roedd y Comisiwn wedi ymweld â'r elusen yn ddiweddar fel rhan o'i raglen Ymweliadau Adolygu, a gwelwyd bod proses recriwtio, dewis a sefydlu glir gan yr elusen sy'n gweithio'n dda, ac yn cael ei hadolygu'n gyson.

Sesiwn goginio yn Hosbis Sant Oswald

Mae'r elusen yn defnyddio dulliau amrywiol i recriwtio ymddiriedolwyr newydd er mwyn sicrhau bod y bwrdd yn gynhwysol ac yn gynrychioliadol o bob un o'i defnyddwyr. Yna gwahoddir ymgeiswyr sydd wedi dangos diddordeb i fynychu cyfarfod gyda chadeirydd yr elusen a'r Prif Weithredwr. Mae hwn yn rhoi cyfle i'r ddwy ochr gael gwybod mwy am ei gilydd, gan sicrhau bod yr ymgeisydd yn deall yr ymroddiad sy'n ofynnol gan ymddiriedolwr. Lle'n bosib, mae ymddiriedolwyr yn cael eu recriwtio mewn grwpiau o ddau neu dri er mwyn iddynt allu cefnogi ei gilydd yn eu rolau newydd.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi datblygu proses sefydlu fanwl sy'n cael ei adolygu bob hyn a hyn. Gwahoddir yr ymddiriedolwyr a benodir yn fwyaf diweddar i gyfrannu at yr adolygiad hwnnw er mwyn pennu a oes modd gwella'r broses o'u profiadau.

Mae ymddiriedolwyr newydd yn cael amrywiaeth o ddogfennau allweddol, gan gynnwys dogfen lywodraethol yr elusen, y tri set diwethaf o gyfrifon ac adroddiadau blynyddol, y cynllun busnes cyfredol, cofnodion cyfarfodydd ymddiriedolwyr diweddar a chanllaw ar fod yn ymddiriedolwr. Mae disgrifiadau rôl ar gael i'r ymddiriedolwyr a'r swyddogion mygedol er mwyn egluro eu rolau a'u cyfrifoldebau arbennig.

O ganlyniad, mae dealltwriaeth dda gan yr ymddiriedolwyr o'u cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau posib; mae presenoldeb yng nghyfarfodydd ymddiriedolwyr yn dda ar y cyfan; ac nid yw'r elusen yn cael unrhyw broblemau yn aml wrth recriwtio a chadw ymddiriedolwyr.

Pan fydd syniad clir gan ddarpar ymddiriedolwyr am alwadau a chyfrifoldebau'r rôl o'r cychwyn, mae'r broses recriwtio yn debygol o lwyddo. Mae hyn yn wir o ran denu ymgeiswyr addas a chadw ymddiriedolwyr newydd.

Gall disgrifiad swydd ymddiriedolwr manwl gywir helpu trwy roi syniad realistig i ddarpar ymgeiswyr o, er enghraifft, yr amser y bydd angen ei neilltuo i arolygu rheoli a gweinyddu'r elusen. Mae'n gyfle i amlinellu'r mathau o ddyletswyddau y bydd y rôl yn eu cynnwys ac unrhyw sgiliau arbennig sy'n ofynnol[11] ynogystal ag unrhyw gymorth a fydd yn cael ei roi, megis taith sefydlu neu hyfforddiant parhaus.

Bydd treulio ychydig amser ar y cychwyn yn ystyried y materion hyn yn helpu sicrhau bod:

- y broses recriwtio yn ddilys - hynny yw, ei bod yn unol â'r ddogfen lywodraethol;
- yr elusen yn gwybod y math o sgiliau y mae'n chwilio amdanynt;
- darpar ymddiriedolwyr yn gallu gwneud dewis gwybodus cyn ymgeisio.

11 Er enghraifft, mae'n bosib mai'r ffordd orau o lenwi swydd trysorydd yw trwy benodi rhywun sydd wedi cael profiad cyfrifeg neu ariannol. Gallai rhywun sy'n meddu ar sgiliau arwain, cyfryngu a hwyluso fod yn gadeirydd da.

Adnoddau[12]

Mae **Cael Hyd I Ymddiriedolwyr Newydd: Yr hyn y mae angen i elusennau wybod** (CC30) a **Recriwtio, Dewis a Sefydlu Ymddiriedolwyr** (RS1) yn rhoi syniadau pellach i elusennau sy'n paratoi i recriwtio.

Am fanylion ynghylch sut i newid y ddogfen lywodraethol, gweler **Newidiadau i ddogfennau llywodraethol: cwmnïau elusennol** (OG47)**, Elusennau bach: newidiadau i ddogfennau llywodraethol** (OG203) **ac Elusennau Bach: Trosglwyddo Eiddo, Newid Ymddiriedolaethau, Gwario Cyfalaf** (CC44) neu **Newid Dogfennau Llywodraethol Elusennau: Gorchmynion a Chynlluniau** (CC36).

Mae'r **Rhwydweithiau Ymddiriedolwyr Elusennau** yn cynhyrchu taflen gymorth ar gyfer recriwtio ymddiriedolwyr: "Recruiting Trustees: Avenues for Support"

Y broses recriwtio

Cael hyd i'r bobl iawn

Prif gasgliadau'r arolwg

- Mae 11% o'r elusennau yn yr arolwg bob amser yn ei chael hi'n anodd llenwi swyddi gwag ar y corff ymddiriedolwyr (2001: 12%).
- Mae 39% o elusennau weithiau'n ei chael hi'n anodd llenwi swyddi gwag (2001: 31%).
- Erbyn hyn, mae 9% o elusennau yn defnyddio rhwydweithio ag elusennau eraill (2001: 6%), ac erbyn hyn mae 6% yn defnyddio hysbysebu yn y wasg (2001: 3%) i gael hyd i ymddiriedolwyr newydd.
- Mae 81% o elusennau yn parhau i ddibynnu ar argymhelliad llafar a phersonol (2001: 68%).

Ar ôl i'r elusen adnabod unrhyw sgiliau a phrofiad y mae eu hangen arni i ategu'r ymddiriedolwyr presennol, rhaid iddi benderfynu ar y ffordd orau o ddenu ymgeiswyr newydd.

Dangosodd ein harolwg 2001 fod ymddiriedolwyr sy'n ehangu eu harferion recriwtio ac sy'n mabwysiadu dulliau mwy tryloyw yn ei chael hi'n haws adeiladu corff llywodraethu cynhwysol, amrywiol, bywiog ac effeithiol.

Gwelwyd peth dystiolaeth yn ein harolwg diwethaf o gynnydd bach yn yr elusennau ar draws y bandiau incwm sy'n defnyddio dulliau recriwtio ehangach. Mae rhwydweithio ag elusennau eraill a hysbysebu yn y wasg yn fwy poblogaidd erbyn hyn nag yr oeddent yn 2001[13].

Fodd bynnag, yn ein hadroddiad cynharach nodwyd bod arfer gyfredol wrth geisio ymddiriedolwyr yn parhau i ddibynnu i raddau helaeth ar argymhelliad llafar a phersonol. Mae'n ymddangos bod hyn wedi cynyddu, gyda mwy nag 80% o'r holl elusennau yn defnyddio'r dulliau hyn erbyn hyn i ddenu a recriwtio ymddiriedolwyr newydd o'i gymharu â bron 70% yn 2001[14].

12 Sampl bach yn unig yw hwn o'r arweiniad a'r cymorth sydd ar gael. Os nad ydynt wedi'u nodi yma, fe welwch fanylion cyswllt pob sefydliad y sonnir amdanynt yn Atodiad Ch.
13 Rhwydweithio gydag elusennau eraill 9% (2001: 6%); hysbysebu yn y wasg 6% (2001: 3%)
14 Gofynnwyd i'r rheiny a ymatebodd i'r arolwg ddweud wrthym am bob dull recriwtio a ddefnyddiant, felly gallai cyfran o'r rhain ddefnyddio ffyrdd eraill o recriwtio hefyd. Fodd bynnag, ni ddefnyddiwyd unrhyw ddull arall gan fwy nag un ym mhob deg elusen.

Dulliau a ddefnyddir i recriwtio



Derbyniwn fod y dull hwn o recriwtio yn ddilys a gall lwyddo mewn rhai amgylchiadau. Fodd bynnag, os mai dyma yw'r unig ddull neu'r prif ddull a ddefnyddir gan yr ymddiriedolwyr, dyma'r dull sy'n fwyaf tebygol o gyfyngu ar y garfan o ddarpar ymddiriedolwyr, a gallai olygu bod yr elusen yn cael ei hystyried yn un gyfyngedig. Mae'n bosib y bydd elusennau sy'n defnyddio'r dull hwn yn unig yn canfod ei bod yn colli allan ar gronfa ehangach o sgiliau a fyddai'n gwella eu heffeithiolrwydd. Mae bod yn agored ac yn dryloyw yn y broses recriwtio hefyd yn gallu helpu cynyddu ffydd y cyhoedd yn yr elusen yn y tymor hir.

Er enghraifft, pan fydd ymddiriedolwyr yn cael eu hethol neu eu henwebu gan yr aelodaeth, ni fyddai hysbysebu am ymddiriedolwyr newydd yn opsiwn fel rheol. Fodd bynnag, trwy ymgymryd ag archwiliad sgiliau fel y soniwyd amdano yn gynharach, gall y bwrdd gyflwyno 'rhestr ddelfrydol' i'r aelodaeth yn rhestru'r math o sgiliau a fyddai'n ddymunol i ddarpar ymddiriedolwr feddu arnynt.

Nid oes rhaid i hysbysebu fod yn hysbyseb ddrud mewn papur newydd cenedlaethol ychwaith. Mae ein gwaith achosion yn dangos bod elusennau yn hysbysebu swyddi gwag mewn amryw o ffyrdd:

- yn fewnol, i ddefnyddwyr gwasanaeth a gwirfoddolwyr;
- yng nghylchlythyr yr elusen neu ar ei gwefan;
- mewn diwrnod agored i godi proffil yr elusen;
- mewn erthygl yn y papur newydd am ddim lleol;
- ar hysbysfyrddau eglwysi, canolfannau cymunedol neu neuaddau pentref.

Dangosodd ein harolwg 2004 fod elusennau yn y bandiau incwm mawr a mawr iawn yn arbennig o'r farn ei bod hi'n anodd denu ymddiriedolwyr sy'n meddu ar y sgiliau iawn. Gwelwyd hefyd bod elusennau sydd byth yn ei chael hi'n anodd recriwtio ymddiriedolwyr yn llai tebygol o ddefnyddio argymhelliad llafar a phersonol na'r rheiny sy'n cael anhawster[15].

Mae'n rhesymol tybio, wrth benderfynu sut i gael hyd i ymddiriedolwyr newydd, bod elusennau yn fwy tebygol o ddenu'r ymgeiswyr 'iawn' ar gyfer eu helusen os ydynt yn:

- ystyried defnyddio dulliau ehangach o recriwtio, yn enwedig os cafwyd anhawster i recriwtio yn y gorffennol.

15 73% o'i gymharu â 90%.

Prif gasgliadau'r arolwg

- Dywedodd 30% o'r elusennau yn ein harolwg diwethaf eu bod nhw'n ei chael hi'n anodd denu pobl ifanc i wasanaethu fel ymddiriedolwyr.

- Dywedodd rhai hefyd eu bod nhw'n ei chael hi'n anodd recriwtio pobl o leiafrifoedd ethnig neu gael bwrdd sy'n adlewyrchu amrywiaeth y gymuned y maent wedi'i lleoli ynddi.

Croesawn yr ymwybyddiaeth a welwyd yn ystod ein gwaith ymchwil bod amrywiaeth ar y bwrdd ymddiriedolwyr yn bwysig. Mae elusen sydd â bwrdd ymddiriedolwyr amrywiol yn fwy tebygol o:

- gysylltu'n effeithiol â'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu;
- ymateb yn effeithiol ac yn deg i anghenion ei defnyddwyr;
- cynyddu atebolrwydd a ffydd y cyhoedd yn ei gwaith.

Dywedodd bron un rhan o dair o'r rheiny a ymatebodd i'n harolwg eu bod nhw'n ei chael hi'n anodd denu pobl ifanc i weithredu fel ymddiriedolwyr. Dengys dadansoddiad o'r manylion ymddiriedolwyr a gedwir ar ein Cofrestr[16] fod 76% o ymddiriedolwyr yn 45 oed neu'n hŷn. Cydnabyddir fod y rheiny sydd â phroffil oedran iau yn llai tebygol o gael amser rhydd oherwydd bod mwy o ymrwymiadau teulu, gwaith neu'r ddau ganddynt.

Mae'n syndod efallai, mai dim ond 0.5% o ymddiriedolwyr sy'n iau na 24 oed. Mae'n bosib bod angen i elusennau ystyried mabwysiadu dulliau newydd o recriwtio os ydynt eisiau denu ymddiriedolwyr o'r grŵp oedran hwn.

Manylion ymddiriedolwyr ar y Gofrestr Elusennau Ganolog

Band oedran	% yr ymddiriedolwyr ym mhob band oedran	% y boblogaeth ym mhob band oedran[17]
Dros 60	42%	21%
45-59	34.5%	19%
25-44	23%	29%
24 oed ac iau	0.5%	31%[18]

16 Mae'r data hwn yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwn yn flynyddol gan elusennau cofrestredig fel rhan o'n rhaglen gydymffurfio a chywirdeb data. NID yw dyddiadau geni unigolion yn cael eu rhoi i'r cyhoedd.

17 Mae'r data hwn o gyfrifiad 2001, ac mae ar gael ar wefan Ystadegau Cenedlaethol. www.statistics.gov.uk

18 Mae'n amlwg na fyddai pob un yn y band oedran hwn yn gymwys i ddal swydd ymddiriedolwr. Ni all unrhyw un sy'n iau nag 18 oed fod yn ymddiriedolwr ymddiriedolaeth elusennol neu gymdeithas anghorfforedig. Ond gall unigolyn sy'n 18 oed neu'n iau fod yn gyfarwyddwr cwmni elusennol.

% yr ymddiriedolwyr ym mhob band oedran



Mae'n bosib bod angen i elusennau sy'n dymuno denu grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd i'w byrddau ymddiriedolwyr ystyried ffyrdd newydd o gysylltu â'r grwpiau hynny. Er enghraifft, roedd ein gwaith ymchwil ar gyfer Neuaddau Pentref a Chanolfannau Cymunedol (RS9) yn awgrymu bod elusennau yn fwy tebygol o lwyddo i recriwtio ymddiriedolwyr 'ifanc' os yw'r elusen ei hun yn cynnwys pobl ifanc yn ei gweithgareddau.

Astudiaeth achos

Mae hon yn enghraifft o sut y gellid defnyddio archwiliad sgiliau i adnabod bylchau mewn corff ymddiriedolwyr ac felly cynorthwyo'r broses recriwtio.

Mae Age Concern Ardal Wakefield yn elusen maint canolig a'i diben yw hybu iechyd a lles pobl hŷn yn ardal Wakefield.

Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Age Concern Dosbarth Wakefield

Mae rhaglen sefydlu gynhwysfawr gan yr elusen sy'n ymdrin â nifer o'r egwyddorion arfer dda sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn.

Cynhaliwyd archwiliadau sgiliau'r bwrdd ymddiriedolwyr yn ddiweddar er mwyn adnabod unrhyw fylchau mewn arbenigedd yr ymddiriedolwyr.

Daeth yr archwiliad i'r casgliad fod ystod eang o ymddiriedolwyr profiadol gan y bwrdd, ond byddai'n fantais i gael mwy o arbenigedd ariannol. Teimlai'r ymddiriedolwyr fod hwn yn gyfle delfrydol i benodi cyfrifydd proffesiynol i'r bwrdd. Penderfynon nhw ysgrifennu at gwmnïau lleol yn yr ardal yn gwahodd pobl gymwys addas i wneud cais am y swydd wag.

Teimlai rheolwr un cwmni y cysylltodd yr elusen ag ef y byddai hwn yn gyfle i un o'i staff helpu'r elusen ac ar yr un pryd ehangu profiad cyfrifeg yr unigolyn hwnnw o'r wybodaeth a'r sector gwirfoddol. Ers hynny mae'r elusen wedi penodi'r unigolyn hwn, sydd yn ei 20au. Trwy ymgymryd ag archwiliad sgiliau ac ehangu ei dulliau recriwtio, mae'r bwrdd ymddiriedolwyr wedi sicrhau cydbwysedd sgiliau gwell a hefyd wedi gwella ei amrywiaeth trwy ehangu'r ystod o brofiadau bywyd a chanfyddiadau ymysg y rheiny sy'n gwasanaethu fel ymddiriedolwyr.

Dyma'r tro cyntaf i'r elusen recriwtio ymddiriedolwyr yn y ffordd hon ac mae'n ymddangos bod y dull yma o recriwtio wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Ffordd arall o sicrhau bod bwrdd ymddiriedolwyr yr elusen yn wirioneddol amrywiol yw gwneud yn siŵr bod ei defnyddwyr neu ei rhanddeiliaid yn cael eu cynrychioli. Croesawn yn fawr gyfranogiad defnyddwyr fel ffordd o helpu elusen gyflawni ei hamcanion yn fwy effeithiol. Dylai elusennau a hoffai ddilyn y llwybr hwn fod yn ymwybodol bod gwrthdaro buddiannau yn bosib. Mae ein taflen Cynnwys Defnyddwyr (CC24) yn ceisio helpu elusennau rhagweld ac osgoi problemau.

Credwn fod amrywiaeth yn ffactor pwysig o ran atebolrwydd a ffydd gyhoeddus. Croesawn y pwyslais cynyddol y mae elusennau yn ei roi ar amrywiaeth wrth recriwtio ymddiriedolwyr. Cynigiwn hyn fel rheswm pellach i elusennau geisio dibynnu llai ar ddulliau traddodiadol o recriwtio a mwy ar ddulliau sy'n gynhwysol ac yn dryloyw.

Prif gasgliadau'r arolwg

- Erbyn hyn mae 42% o elusennau mawr a mawr iawn yn darparu disgrifiadau swyddi pan fyddant yn paratoi i recriwtio (37% yn 2001).

- Dim ond 8% o elusennau bach sy'n darparu disgrifiad swydd (13% yn 2001).

Os yw ymddiriedolwyr yn ymwneud yn bersonol â gweinyddu'r elusen o ddydd i ddydd, neu os ydynt yn cael cymorth rhwydwaith o weithwyr, mae rôl unigryw ac allweddol ganddynt i'w chwarae o ran arwain rheolaeth a gweinyddiad yr elusen.

Mae ymddiriedolwyr yn fwy tebygol o fod yn effeithiol o'r cychwyn os cawsant syniad clir o'r math o ddyletswyddau a chyfrifoldebau y bydd ganddynt a hyd a lled y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hynny.

Ymysg yr elusennau a gymerodd ran yn ein harolwg, y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd (gan 82%) dros gael anhawster i ddenu ymddiriedolwyr newydd oedd nad oedd pobl yn gallu neilltuo amser.

Fodd bynnag, dim ond 22% o'r holl elusennau yn yr arolwg oedd yn darparu 'disgrifiad swydd' cyn recriwtio. Mae'n rhesymol i dybio pe byddai mwy o elusennau yn gwneud hynny, er enghraifft, nodi nifer y cyfarfodydd ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn a'r dyletswyddau eraill, byddai modd lleddfu'r ofn o beidio â chael digon o amser i'w dreulio ar fusnes yr elusen.

Y prif resymau pam y bydd elusennau yn ei chael hi'n anodd recriwtio ymddiriedolwyr newydd



Cyfanswm % ar draws y bandiau incwm

Ofni cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfreithiol yn gysylltiedig ag ymddiriedolaeth oedd anhawster cyffredin arall wrth recriwtio, a nodwyd hyn gan 53% o'r holl elusennau.

Mae ymddiriedolaeth yn gyfrifoldeb y dylid ei gymryd o ddifrif. Mae'n wir y bu achosion pan oedd ymddiriedolwyr yn atebol yn bersonol am eu gweithredoedd, ond mae'r nifer yn fach iawn. Os yw ymddiriedolwyr yn gweithredu'n bwyllog, yn

gyfreithlon ac yn unol â'u dogfen lywodraethol, mae modd bodoli unrhyw rwymedigaethau sydd ganddynt fel ymddiriedolwyr o adnoddau'r elusen. Os yw elusen yn mynd i drafferthion trwy gamgymeriadau gonest, byddwn bron bob amser yn barod i weithio â'r ymddiriedolwyr i unioni materion.

Mae elusen yn fwy tebygol o ddenu darpar ymddiriedolwyr os yw'n:

- cyflwyno risgiau a manteision ymddiriedolaeth mewn ffordd gymesur a chytbwys;
- rhoi asesiad teg o'r amser y mae angen ei neilltuo.

Pobl sydd wedi'u hanghymwyso rhag gweithredu fel ymddiriedolwyr

Prif gasgliadau'r arolwg

- Mae 23% o'r holl elusennau yn yr arolwg yn cynnal archwiliadau ar gymhwyster darpar ymddiriedolwyr.
- Mae'r tebygolrwydd o archwiliadau'n cael eu cynnal yn cynyddu gyda maint yr elusen; ond serch hynny, mae llai na hanner yr elusennau mwyaf yn gwneud hynny.

Mae tystiolaeth anecdotaidd o'n tîm Ymweliadau Adolygu yn awgrymu bod dealltwriaeth anghyson ynghylch y gofynion anghymwyster a osodwyd yn adran 72 Deddf Elusennau 1993.

Mae rhai pobl wedi'u hanghymwyso yn gyfreithiol rhag gweithredu fel ymddiriedolwyr. Mae'n dramgwydd troseddol i wasanaethu fel ymddiriedolwr os ydych wedi'ch anghymhwyso rhag gwneud hynny. Felly disgwyliwn i elusennau gynnal archwiliadau cymhwyster ar ddarpar ymddiriedolwyr sy'n briodol i'w maes gweithredu nhw.

Gofynnwn i ymddiriedolwyr pob elusen newydd sy'n ceisio cofrestru arwyddo datganiad nad ydynt yn anghymwys. Disgwyliwn i elusennau barhau i gynnal archwiliadau ar ddarpar ymddiriedolwyr er mwyn sicrhau cymhwyster. Yn dibynnu ar amgylchiadau'r elusen, nid oes rhaid i'r archwiliadau hyn fod yn fwy cymhleth na gofyn i ymddiriedolwyr newydd arwyddo datganiad i ddweud eu bod yn gymwys i weithredu[19].

Fodd bynnag, yn achos elusennau lle mae'r ymddiriedolwyr (a'r gwirfoddolwyr) yn cael cysylltiad uniongyrchol â defnyddwyr sy'n agored i niwed, er enghraifft, oherwydd eu hoedran neu iechyd meddwl, rhaid cynnal archwiliadau cefndir mwy trylwyr er mwyn sicrhau eu bod yn addas.

19 Fe welwch ffurflen ddatganiad enghreifftiol ar ein gwefan yn yr adran ar arweiniad i elusennau. Mae sefydliadau eraill megis NCVO hefyd yn cynhyrchu datganiadau cymhwyster ymddiriedolwyr enghreifftiol i ymddiriedolwyr newydd.

Astudiaeth achos

Derbyniodd y Comisiwn Elusennau wybodaeth bod gan un o ymddiriedolwyr elusen ar ein Cofrestr gollfarn sydd heb ddarfod am ladrad. Prif amcan yr elusen oedd lleddfu tlodi.

Agorwyd ymchwiliad ffurfiol, dan adran 8 Deddf Elusennau 1993, a chawsom wybod mai dim ond dau o'r pum ymddiriedolwr a benodwyd oedd yn chwarae rhan weithredol yng ngweinyddu'r elusen. Roedd un o'r ddau wedi bod yn gweithredu fel ymddiriedolwr tra ei fod wedi'i anghymwyso dan adran 72 Deddf Elusennau 1993. Dywedodd yr ymddiriedolwyr eraill nad oedden nhw'n ymwybodol o weithgareddau'r elusen ac nid oeddent yn gwybod beth oedd eu cyfrifoldebau i'r elusen.

Roeddem yn bryderus ynghylch gweinyddiad cronfeydd yr elusen, felly fel mesur dros dro i'w diogelu, rhewodd y Comisiwn gyfrif banc yr elusen.

Wedi ymchwiliadau pellach, cafodd y Comisiwn wybod bod y ddau ymddiriedolwr gweithredol yn defnyddio'r elusen i dderbyn lwfansau budd-dal tai ar gyfer eiddo yr oedd y ddau ymddiriedolwr eu hunain yn berchen arno ac un landlord preifat arall. Talwyd y budd-dal tai i'r elusen a oedd yn ei thro wedi cymryd 'rhodd' o'r budd-dal cyn trosglwyddo'r gweddill i'r landlord neu'r tenantiaid. Yn ein barn ni, roedd peth o gronfeydd yr elusen wedi cael eu defnyddio gan yr ymddiriedolwyr ar gyfer costau teithio i gyfarfodydd landlordiaid, ar fusnes oedd heb unrhyw gysylltiad â'r elusen. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn fudd preifat.

Cawsom wybod gan un o'r ymddiriedolwyr gweithredol fod statws elusennol wedi cael ei geisio am resymau heblaw dibenion elusennol.

Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad nad oedd modd cynnal sefyllfa'r elusen dan yr amgylchiadau. Felly cafodd yr elusen ei dileu o'r Gofrestr a chyfeiriwyd y mater at yr heddlu. Cafwyd yr unigolyn dan sylw ei gael yn euog o weithredu fel ymddiriedolwr tra'r oedd wedi'i anghymhwyso a rhoi gwybodaeth ffug i'r Comisiwn a chafodd Orchymyn Cosb Gymunedol.

Mewn rhai achosion mae pŵer gan y Comisiwn Elusennau i roi hepgoriad a chaniatáu i unigolyn sydd wedi'i anghymwyso rhag bod yn ymddiriedolwr dan adran 72(1) Deddf Elusennau 1993 dderbyn swydd fel ymddiriedolwr. Cytunwn dim ond yn yr achosion hynny lle gall yr elusen ddangos yn glir bod yr hepgoriad er lles gorau'r elusen.

Mae'n siomedig mai dim ond 23% o elusennau a ymatebodd i'n harolwg oedd yn cynnal archwiliadau ar gymhwyster darpar ymddiriedolwyr i weithredu ar y bwrdd.

Ydy archwiliadau'n cael eu eu cynnal ar ymddiriedolwyr newydd?



Er y gwyddwn y gall hwn fod yn faes sensitif i gyrff ymddiriedolwyr, gwelwyd achosion lle mae methu â chynnal yr archwiliadau hyn wedi achosi embaras i'r unigolyn a'r elusen, gan arwain at yr anghyfleustra o weithredu proses recriwtio o'r newydd. Mewn achosion eithafol, gallai enw da'r elusen, lles ei defnyddwyr neu hyd yn oed ei bodolaeth fod mewn perygl.

Adnoddau[20]

Mae **Yr ymddiriedolwr hanfodol: yr hyn y mae angen i chi wybod** (CC33) yn ateb rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin a ofynnir am ymddiriedolaeth a dyletswyddau ymddiriedolwyr.

Mae **Cynnwys Defnyddwyr** (CC24) yn ystyried defnyddwyr sy'n troi'n ymddiriedolwyr elusennau yn arbennig, oherwydd mae'r math hwn o gyfranogiad yn codi materion cymhleth y mae angen mynd i'r afael â nhw.

Mae **Recriwtio, Dewis a Sefydlu Ymddiriedolwyr** (RS1) a **Cael Hyd I Ymddiriedolwyr Newydd: Yr hyn y mae angen i elusennau wybod** (CC30) yn cynnwys mwy o wybodaeth ynghylch pwy all a phwy na all weithredu fel ymddiriedolwr; yr hyn y gall elusennau ei wneud i wneud yn siŵr bod hawl gan unigolyn weithredu; a pha gamau a gymerwn i sicrhau bod yr archwiliadau hynny wedi cael eu gwneud.

Mae **Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol** (NCVO) yn darparu gwybodaeth a chymorth helaeth i elusennau sy'n recriwtio, dewis a sefydlu ymddiriedolwyr newydd. Mae'n gweinyddu Banc Ymddiriedolwyr, adnodd i helpu cael hyd i a llenwi swyddi gwag ymddiriedolwyr ac mae'n cynnig hyfforddiant ar bynciau cysylltiedig amrywiol.

Mae **Involving Young People** a **Recruiting and Supporting Black and Minority Ethnic Trustees** (y ddau gan Tesse Akpeki ac wedi'u cyhoeddi gan NCVO) yn rhoi canllawiau ar arfer dda wrth recriwtio ymddiriedolwyr Duon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae'r **tîm Ymddiriedolwyr a Rheolaeth** yn **NCVO** hefyd yn cyflwyno nifer o becynnau hyfforddi gwahanol, gan gynnwys "Adeiladu bwrdd ymddiriedolwyr cynhwysol/amrywiol".

Mae "The Law as it affects the Recruitment and Retention of Trustees", Valerie James, yn ymddangos yn **Charities, Governence and the Law; the Way Forward** (Golygydd Debra Morris a Jean Warburton). Mae'r traethawd hwn yn dadansoddi'r amgylchiadau a all anghymhwyso pobl rhag bod yn ymddiriedolwyr a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â bod yn ymddiriedolwr.

20 Sampl bach yn unig yw hwn o'r arweiniad a'r cymorth sydd ar gael. Os nad ydynt wedi'u nodi yma, fe welwch fanylion cyswllt pob sefydliad y sonnir amdanynt yn Atodiad Ch.

Gwybodaeth y mae ei hangen ar bob ymddiriedolwr newydd

Prif gasgliadau'r arolwg

Mae'r rhan fwyaf o elusennau, gan gynnwys bron pob un o'r elusennau mwyaf, yn darparu peth gwybodaeth i ymddiriedolwyr newydd fel rhan o'r broses sefydlu:

- erbyn hyn mae 61% o'r holl elusennau yn yr arolwg yn rhoi copi o ddogfen lywodraethol yr elusen i ymddiriedolwyr newydd fel mater o drefn (2001: 55%);
- erbyn hyn mae 69% o'r holl elusennau yn yr arolwg yn rhoi copïau o gofnodion cyfarfodydd blaenorol i ymddiriedolwyr newydd fel mater o drefn (2001: 63%);
- erbyn hyn mae 32% o'r holl elusennau yn yr arolwg yn rhoi taith ffurfiol i ymddiriedolwyr newydd fel mater o drefn neu mae proses sefydlu ganddynt (2001: 22%).

Dangosodd ein harolwg 2001 fod gormod o elusennau yn disgwyl i ymddiriedolwyr sydd newydd eu recriwtio ymgodymi â gofynion y swydd heb gael mynediad ar y cychwyn i wybodaeth sylfaenol am weithgareddau, cyllid a nodau a chyfyngiadau cyfansoddiadol eu helusen.

Cydnabyddwn y bydd y gofynion i gael rhaglen sefydlu yn amrywio yn ôl maint a natur yr elusen. Fodd bynnag, mae angen rhyw fath o sefydlu ar bob ymddiriedolwr newydd. Rhaid i bob un ohonynt gael syniad clir o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau os ydynt eisiau gwneud cyfraniad effeithiol a gwerthfawr o'r cychwyn cyntaf.

Y wybodaeth y bydd elusennau yn ei rhoi i ymddiriedolwyr newydd



Mae nifer o'n nodweddion elusen effeithiol cymeradwy yn dibynnu ar ymddiriedolwyr yn cael mynediad i wybodaeth sylfaenol arbennig. Er enghraifft, cyfeiriwyd yn gynharach at ofn rhwymedigaethau cyfreithiol canfyddedig yn deillio o ymddiriedolaeth. Yn wir, mae'r risg mwyaf i ymddiriedolwyr unigol a'u helusen yn dod pan na fydd ymddiriedolwyr yn cynnal eu gweithgareddau trwy gyfeirio at eu dogfen lywodraethol.

Rhaid i ymddiriedolwyr gael mynediad i'r ddogfen hon er mwyn sicrhau bod amcanion yr elusen a'u gweithgareddau cynulliedig heb fod yn groes i ymddiriedolaeth.

Rydym yn falch nodi o'n harolwg 2004 y bu peth gwelliant yn y maes hwn, a thrwy ein gwaith achosion rydym wedi dod ar draws sawl enghraifft dda mewn elusennau unigol.

Astudiaeth achos

"Dylai sicrhau fod ymddiriedolwyr newydd yn cael eu sefydlu'n effeithiol nid yn unig sicrhau fod ymddiriedolwyr newydd yn cael eu cadw ac nid ydynt yn dadrithio ac yn gadael, ond hefyd eu bod yn dod yn aelodau effeithiol a defnyddiol o'r bwrdd ymddiriedolwyr yn gyflym."

London Play, Pecyn Sefydlu

Un o gyfarfodydd rheolaidd London Play

Sefydlwyd London Play yn 1998 i gefnogi a chydlynu gwasanaethau chwarae tu allan i oriau ysgol i blant ar draws Llundain. Mae'r elusen yn ceisio ffyrdd newydd yn gyson o gefnogi meysydd chwarae antur, ac, fel un o'r prosiectau a ddewiswyd gan Media Trust, mae'n paratoi ffilm recriwtio i ddenu aelodau newydd i bwyllgorau rheoli meysydd chwarae antur (ymddiriedolwyr) fel rhan o'i gyfraniad at Flwyddyn Gwirfoddolwyr 2005.

Mae'r elusen wedi paratoi pecyn sefydlu ymddiriedolwyr cynhwysfawr i feysydd chwarae antur ei ddefnyddio. Mae wedi llunio'r pecyn o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys Recriwtio, Dewis a Sefydlu Ymddiriedolwyr (RS1). Mae'r pecyn ar gael am ddim ar ei wefan ac yn ganllaw defnyddiol i bobl sy'n ymddiriedolwyr newydd.

Mae'r pecyn yn ddogfen gynhwysfawr sy'n cwmpasu pob cam o'r broses recriwtio a sefydlu. Mae'n esbonio wrth ddarllenwyr beth yw ymddiriedolwr ac mae'n rhoi cyngor ar y ffordd orau o wneud y mwyaf o'r rôl. Mae'n esbonio'n glir pan fydd unigolion efallai wedi'u hanghymwyso rhag bod yn ymddiriedolwr a sut i reoli gwrthdaro buddiannau posib.

Mae'r pecyn yn cynnwys disgrifiadau swyddi a manylebau person enghreifftiol i aelodau bwrdd, cadeirydd, ysgrifennydd a thrysorydd. Mae hefyd yn cynnwys ffurflenni monitro sgiliau a hunanasesiad er mwyn i'r ymgeiswyr allu ystyried y nodweddion y gallant eu cynnig i'r elusen a gall yr aelodau bwrdd benderfynu ar y rôl orau y byddai aelodau newydd yn gallu ymgymryd â hi.

Mae London Play yn dangos ei ymroddiad i amrywiaeth trwy gynnwys ffurflen fonitro cyfle cyfartal yn y pecyn ac arolwg argaeledd a blaenoriaeth cyfarfodydd ymddiriedolwyr.

Mae hefyd yn dangos ymroddiad at recriwtio a chadw ymddiriedolwyr trwy restr wirio ar gyfer pecyn sefydlu ymddiriedolwyr; rhestr wirio i ymddiriedolwr newydd; ac awgrymiadau ar gyfer cyfarfodydd adolygu rhwng ymddiriedolwr newydd a'r cadeirydd.

Hoffem weld elusennau yn adeiladu ymhellach ar y tuedd cadarnhaol hwn, ac mae Recriwtio, Dewis a Phenodi Ymddiriedolwyr Elusennau (CC30) yn rhoi arweiniad pellach ar hyn.

Mae ymddiriedolwyr newydd yn fwy tebygol o deimlo bod yr elusen yn eu croesawu, a dechrau gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn gynt os:

- yw nodau ac amcanion yr elusen ar gael iddynt yn syth;
- ydynt yn cael gwybodaeth ymarferol am y ffordd y mae'r elusen yn gweithredu o'r cychwyn.

Adnoddau[21]

Mae **Yr ymddiriedolwr hanfodol: yr hyn y mae angen i chi wybod** (CC3) yn ateb rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin a ofynnir am ymddiriedolaeth a dyletswyddau ymddiriedolwyr.

Mae **Cael Hyd I Ymddiriedolwyr Newydd: Yr hyn y mae angen i elusennau wybod** (CC30) yn cynnwys mwy o wybodaeth ynghylch pwy all a phwy na all weithredu fel ymddiriedolwr; yr hyn y gall elusennau ei wneud i sicrhau bod hawl gan unigolyn weithredu; a pha gamau a gymerwn i sicrhau bod yr archwiliadau hynny wedi cael eu cynnal.

Mae **Nodweddion Elusen Effeithiol** (CC60) yn canolbwyntio ar gyraeddiadau, perfformiad ac effaith elusen effeithiol yn ogystal â'r egwyddorion y disgwyliwn i elusennau a'u hymddiriedolwyr eu dilyn. Y prif egwyddorion yw'r rhain yn hytrach na rhestr o ofynion cyfreithiol. Mae'r llyfryn wedi'i anelu at elusennau sydd ag incwm o £250,000 neu fwy yn bennaf, ond mae'n cydnabod y gall fod gwahanol ffyrdd gan wahanol fathau a meintiau o elusennau i gyflawni pob Nodwedd.

Fe welwch becyn sefydlu London Play ar ei wefan, **www.londonplay.org.uk**.

Mae **Rhwydweithiau Ymddiriedolwyr Elusennau** yn cynnig cyd-gymorth i ymddiriedolwyr trwy hybu a datblygu grwpiau rhwydweithio hunangymorth i ymddiriedolwyr gan ddarparu ymgynghoriaeth gost-effeithiol a mentora ymhlith cyfoedion.

21 Sampl bach yn unig yw hwn o'r arweiniad a'r cymorth sydd ar gael. Os nad ydynt wedi'u nodi yma, fe welwch fanylion cyswllt pob sefydliad y sonnir amdanynt yn Atodiad Ch.

Hyfforddiant i ymddiriedolwyr newydd

Sefydlu yw dechrau'r broses ddysgu. Dylai fod yn rhan o agenda ehangach o hyfforddiant parhaus i ymddiriedolwyr newydd ac ymddiriedolwyr sy'n bod.

Nid ydym yn archwilio'r maes hwn yn fanwl yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'n werth nodi nad cyrsiau ffurfiol, wedi'u trefnu yw'r unig ffordd i ymddiriedolwyr gael hyfforddiant. Dywedodd ein hadroddiad cynharach fod cyfoeth o arweiniad a chyfleoedd hyfforddi ar gael i ymddiriedolwyr. Ond gwelwyd nad yw nifer sylweddol o elusennau yn defnyddio offerynnau arfer dda neu'n bodloni argymhellion arfer dda. Yn y gwaith ymchwil ar gyfer ein hadroddiad Cerrig Milltir: Rheoli prif ddigwyddiadau ym mywyd elusen (RS6) nodwyd bod ymddiriedolwyr yn tueddu 'ailddyfeisio'r olwyn' yn hytrach na dysgu o brofiad pobl eraill neu fanteisio ar y cyngor a'r arweiniad a gynhyrchwyd gan gyrff sefydledig.

Argymhellwyd yn ein hadroddiad cynharach bod lle i ddatblygu deunydd hyfforddi gwell a mwy cynhwysfawr i ymddiriedolwyr newydd ac eraill ar ofynion a sgiliau sylfaenol ymddiriedolaeth. Mae ein gwaith ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn wedi dangos y bu gwelliannau sydd i'w croesawu yn y maes hwn, nid lleiaf cronfa genedlaethol o arbenigedd sydd ar ddod ym maes rheolaeth[22]; a chynnig llwyddiannus diweddar Sefydliadau Hyfforddi Cenedlaethol y Sector Gwirfoddol i ddatblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol yn y maes hwn.

Gwelwyd enghreifftiau gwych hefyd o elusennau unigol a chyrff mantell yn paratoi pecynnau gwybodaeth cynhwysfawr, sy'n ystyriol o'r darllenydd i gefnogi ymddiriedolwyr newydd ac ymddiriedolwyr sy'n bod gyda'r broses recriwtio, dewis a sefydlu.

Rydym yn fodlon yn gyffredinol â'r tueddiadau cadarnhaol a welwyd yn y maes hwn, ac edrychwn ymlaen at welliannau pellach.

Adnoddau[23]

Mae **Nodweddion Elusen Effeithiol** (CC60) yn canolbwyntio ar gyraeddiadau, perfformiad ac effaith elusen effeithiol yn ogystal â'r egwyddorion y disgwyliwn i elusennau a'u hymddiriedolwyr eu dilyn. Y prif egwyddorion yw'r rhain yn hytrach na rhestr o ofynion cyfreithiol. Mae'r llyfryn wedi'i anelu at elusennau sydd ag incwm o £250,000 neu fwy yn bennaf, ond mae'n cydnabod y gall fod gwahanol ffyrdd gan wahanol fathau a meintiau o elusennau i gyflawni pob Nodwedd.

Mae **The Charity Trustee's Handbook**, Mike Eastwood, Directory of Social Change, 2001, yn ganllaw cychwynnol i ymddiriedolwyr newydd.

Mae **Working For A Charity** yn elusen gofrestredig sy'n ceisio cynyddu dealltwriaeth o'r sector gwirfoddol ac annog pobl, adnoddau a sgiliau newydd i ymuno â'r sector a'i gryfhau. Ymysg cyrsiau eraill, mae'n cynnal cwrs sefydlu i elusennau sy'n ceisio bodloni anghenion unigolion sydd wedi cael eu penodi'n ddiweddar i swyddi â chyfrifoldeb, boed yn gyflogedig neu'n anghyflogedig.

22 Un o'r pum cronfa genedlaethol o arbenigedd i gefnogi a datblygu arfer orau a gynigir yn ChangeUp - Capacity Building and Infrastructure Framework for the Voluntary and Community Sector.

23 Sampl bach yn unig yw hwn o'r arweiniad a'r cymorth sydd ar gael. Os nad ydynt wedi'u nodi yma, fe welwch fanylion cyswllt pob sefydliad y sonnir amdanynt yn Atodiad Ch.

Atodiad A

Rhestr wirio ymddiriedolwyr

Mae'r rhestr wirio ganlynol yn nodi'r cwestiynau y gall fod yn ddefnyddiol i elusennau eu hystyried yng nghamau amrywiol recriwtio, dewis a sefydlu ymddiriedolwyr. Mae'r pwyntiau wedi cael eu cymryd o'n profiad gwaith achosion a'r ymatebion i'n harolwg.

Ni fydd pob pwynt yn gymwys i bob math o elusen. Dylid eu hystyried fel man cychwyn ac nid y gair olaf ar fater arbennig.

Recriwtio, dewis a sefydlu ymddiriedolwyr

Cam un - paratoi i recriwtio

- Ydyn ni'n darllen dogfen lywodraethol ein helusen yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ein proses recriwtio yn ystyried unrhyw gyfyngiaiau sydd ynddi?
- Ydyn ni'n ystyried yn rheolaidd a yw'r cyfyngiadau yn y ddogfen lywodraethol yn ymarferol?
- Os yw'r ddogfen lywodraethol yn dweud bod rhaid i rai neu bob un o'r ymddiriedolwyr ymddeol ar ôl cyfnod arbennig yn y swydd, ydy'r bwrdd yn cynllunio ymlaen llaw am y sgiliau a'r wybodaeth sy'n cael eu colli?
- Ydyn ni'n adolygu sgiliau, gwybodaeth a mewnbwn ein hymddiriedolwyr yn gyson?
- Ydyn ni'n cynnal archwiliad o sgiliau'r bwrdd ymddiriedolwyr er mwyn adnabod unrhyw fylchau cyn recriwtio ymddiriedolwyr newydd?
- Ydyn ni'n paratoi disgrifiad swydd ymddiriedolwr a fydd yn rhoi syniad realistig i ddarpar ymgeiswyr o'r dyletswyddau a'r ymroddiad amser y mae ei angen i fod yn ymddiriedolwr?
- Ydyn ni'n meddwl, cyn recriwtio, am y cymorth y byddwn yn ei roi i ymddiriedolwyr newydd, megis taith sefydlu neu hyfforddiant parhaus?

Cam dau - y broses recriwtio

- Ydyn ni'n adolygu'n rheolaidd y dulliau a ddefnyddiwn i gael hyd i ymddiriedolwyr newydd?
- Os ydym yn ei chael hi'n anodd cael hyd i ymddiriedolwyr newydd weithiau neu bob amser, ydyn ni'n ceisio ehangu ein dulliau recriwtio?
- Ydyn ni'n adolygu amrywiaeth y bwrdd ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau ei fod yn cynrychioli ei gymuned (boed yn gymuned ddaearyddol neu'n gymuned o fudd)?
- Ydyn ni'n gwybod pa ymddiriedolwyr sy'n gymwys i weithredu ac sydd heb eu hanghymwyso, er enghraifft, gan y gyfraith elusennau neu'r gyfraith cwmnïau?
- Ydyn ni'n gofyn i ymddiriedolwr newydd arwyddo datganiad i ddweud eu bod nhw'n gymwys i weithredu fel ymddiriedolwr?
- Oes angen i ni gynnal archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar ymddiriedolwyr newydd oherwydd bod ein buddiolwyr yn blant neu'n oedolion sy'n agored i niwed?

Cam tri - sefydlu

Oes proses sefydlu gennym i ymddiriedolwyr newydd sy'n eu cynorthwyo i ddeall ein dibenion elusennol, ein sefyllfa ariannol a'r materion cyfredol sy'n wynebu'r elusen?

Ydyn ni'n rhoi pecyn gwybodaeth neu ddisgrifiad swydd i ymddiriedolwyr newydd sy'n amlinellu eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau er mwyn iddynt fod yn gwbl ymwybodol o'u rôl?

Ydyn ni'n rhoi copi o ddogfen lywodraethol yr elusen i ymddiriedolwyr newydd?

Ydyn ni'n rhoi copi o gyfrifon diweddaraf yr elusen i ymddiriedolwyr newydd?

Ydyn ni'n rhoi copi o gofnodion cyfarfodydd diweddar yr elusen i ymddiriedolwyr newydd?

Ydyn ni'n rhoi copïau o lyfrynnau'r Comisiwn Elusennau Yr ymddiriedolwr hanfodol: yr hyn y mae angen i chi wybod (CC3) a Nodweddion Elusen Effeithiol (CC60) i ymddiriedolwyr newydd?

Os ydym yn gwmni, ydyn ni'n sicrhau bod ymddiriedolwyr newydd yn deall y gyfraith cwmnïau?

Oes trefn gennym i reoli gwrthdaro buddiannau posib ac ydy ymddiriedolwyr newydd yn ymwybodol o'r drefn honno?

Cam pedwar - ar ôl recriwtio

Oes angen i ni roi hyfforddiant a datblygiad pellach i ymddiriedolwyr er mwyn sicrhau y gallant barhau i gyfrannu'n effeithiol at yr elusen?

Oes system werthuso ac adolygu gennym er mwyn i ni allu mesur effeithiolrwydd ein trefn recriwtio a sefydlu?

Ydyn ni'n cael y diweddaraf am newyddion arweiniad a pholisi'r Comisiwn Elusennau?

Atodiad B

Technegau ymchwil a chasgliadau'r arolwg

Fel rhan o'n gwaith ymchwil gwreiddiol ar arferion recriwtio, dewis a sefydlu ymddiriedolwyr, comisiynwyd arolwg post o sampl hap o 3,000 o elusennau cofrestredig ar draws pedwar band incwm. Unwaith eto, rydym wedi cynnal arolwg o 3,000 o elusennau, wedi'i bwyso fel o'r blaen ar draws pedwar band incwm, er mwyn cynnig modd cymharu'n ystyrlon â'n casgliadau gwreiddiol.

Rydym hefyd wedi dadansoddi data sy'n ymwneud â'n gwaith achosion a'r manylion ymddiriedolwyr ar ein Cofrestr.

Comisiynwyd cwmni ymchwil annibynnol i gynnal yr arolwg post dilynol ynghylch arferion recriwtio, dewis a sefydlu ymddiriedolwyr yr elusennau a ddewiswyd. Datblygwyd yr arolwg ar y cyd rhwng y Comisiwn a'r cwmni ymchwil, ac fe'i dyluniwyd er mwyn gallu cymharu'n ystyrlon â'r arolwg yn 2001, lle'n bosib.

Cyfradd ymateb yr arolwg post oedd 50%, sy'n gyfradd uchel am arolwg o'r math hwn. Cafodd cyfanswm o 1,487 o ffurflenni eu cwblhau a'u dychwelyd i'w dadansoddi. Mae hyn yn cynnig cyfnod hyder sy'n fwy na +/- 3%, sy'n safon y diwydiant.

Maint yr elusennau a'r gyfran a samplwyd

Rhannwyd sampl yr arolwg i'r bandiau incwm canlynol:

Maint yr elusen	Band incwm	% yn y Gofrestr	% a ddewiswyd ar gyfer yr holiadur post	% a ddychwelwyd
Bach	£10,000 neu lai	58	50	47
Canolig	£10,001 – £250,000	34	30	31
Mawr	£250,001 – £999,999	5	10	11
Mawr iawn	£1,000,000 +	3	10	11

Casgliadau'r arolwg - recriwtio a dewis ymddiriedolwyr

Mae rhai o'r canlyniadau yn cyfeirio at gwestiynau agored, neu gwestiynau lle gallai'r elusen ddewis mwy nag un ateb, felly mae'n bosib na fydd cyfanswm y sgôr yn hafal i 100%.

Pa mor anodd yw hi i recriwtio ymddiriedolwyr newydd?

Gofynnwyd i'r elusennau ddweud a ydynt erioed wedi ei chael hi'n anodd recriwtio a dewis ymddiriedolwyr newydd.

Tabl 1: Ydych chi'n ei chael hi'n anodd llenwi swyddi gwag ar y bwrdd ymddiriedolwyr?

Yn wynebu anawsterau	Cyfanswm %	Bach %	Canolig %	Mawr %	Mawr iawn %
Bob amser	11	10	14.5	14	5
Weithiau	39	32	39.5	46	57
Byth	49	56	46	39	38
Heb ddweud	1	2	-	1	-

Pa anawsterau a geir wrth recriwtio ymddiriedolwyr newydd?

Gofynnwyd i'r elusennau ddweud a ydynt yn cael anawsterau wrth recriwtio ymddiriedolwyr newydd.

Tabl 2: Y prif resymau pam y mae elusennau yn cael problemau wrth recriwtio ymddiriedolwyr[24]

Yr anawsterau	Cyfanswm %	Bach %	Canolig %	Mawr %	Mawr iawn %
Prinder ymgeiswyr	35	35	39	35	24
Dod o hyd i bobl sy'n fodlon gwneud ymrwymiad amser	82	84	86	79	68
Dod o hyd i bobl sydd â'r sgiliau/profiad angenrheidiol	41	21	44	66	72
Dod o hyd i bobl sydd eisiau'r cyfrifoldeb neu sy'n barod i ymgymryd â'r rhwymedigaethau cyfreithiol	53	50	61	59	39
Dod o hyd i bobl sydd â diddordeb	39	46	44	32	9
Dod o hyd i bobl sy'n ifanc	30	32	27	33	30
Ddim yn gymwys	1	1	1	-	1

A yw'n anos recriwtio ymddiriedolwyr heddiw?

Gofynnwyd i elusennau a oedd hi'n llai anodd, tua'r un fath, neu'n fwy anodd llenwi swyddi gwag ar y bwrdd ymddiriedolwyr heddiw na thair blynedd yn ôl.

Tabl 3: Pa mor anodd yw hi i recriwtio ymddiriedolwyr heddiw o'i gymharu â thair blynedd yn ôl?

Anhawster	Cyfanswm %	Bach %	Canolig %	Mawr %	Mawr iawn %
Llai anodd	7	5	9	13	11
Tua'r un fath	65	65	65	64	67
Mwy anodd	13	12	15	10	13
Ddim yn gwybod	11	14	7	10	7
Ddim yn gymwys	4	5	4	3	2

24 Yn ein harolwg 2001, gofynnwyd i'r ymddiriedolwyr roi'r prif resymau pam y cânt anhawster; y tro hwn gofynnwyd iddynt nodi pob un o'r rhesymau.

Sut mae'r elusennau yn denu ymddiriedolwyr newydd?

Gofynnwyd i'r elusennau nodi pa ddulliau yr oeddent yn eu defnyddio i ddenu ymddiriedolwyr newydd.

Tabl 4: Dulliau a ddefnyddir i ddenu ymddiriedolwyr newydd

Y dulliau	Cyfanswm %	Bach %	Canolig %	Mawr %	Mawr iawn %
Hysbysebu yn y wasg	6	3	6	10	15
Rhwydweithio gydag elusennau eraill	9	3	12	21	19
Defnyddio gwasanaeth brocera ymddiriedolwyr	1	0.4	2	5	2
Argymhellion llafar a phersonol	81	76	84	89	89
Arall[25]	12	15	11	8	8

Ydy elusennau yn defnyddio unrhyw offerynnau i helpu recriwtio?

Gofynnwyd i'r elusennau a oeddent yn ymgymryd ag unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol i gynorthwyo'r broses recriwtio a dewis.

Tabl 5: Offerynnau a ddefnyddir i gynorthwyo'r broses recriwtio a dewis

Y gweithgareddau	Cyfanswm %	Bach %	Canolig %	Mawr %	Mawr iawn %
Archwiliad o sgiliau'r ymddiriedolwyr	17	4	16	38	50
Darparu disgrifiadau swyddi ymddiriedolwyr	22	8	28	38	46
Defnyddio pwyllgor recriwtio arbennig	5	2	4	7	16
Ddim un o'r rhain	67	85	60	43	33
Ddim yn gymwys	2	2	1	1	1

25 Nodwyd dulliau eraill amrywiol ar gyfer y categori hwn.

Pa wybodaeth sy'n cael ei rhoi i ymddiriedolwyr newydd?

Gofynnwyd i'r elusennau gadarnhau a oeddent, fel rhan o drefn, yn rhoi eitemau allweddol o wybodaeth am yr elusen i ymddiriedolwyr newydd.

Tabl 6: Pa wybodaeth fydd yr elusennau yn ei rhoi i ymddiriedolwyr newydd?

Y wybodaeth	Cyfanswm %	Bach %	Canolig %	Mawr %	Mawr iawn %
Cyfrifon yr elusen	70	58	73	87	93
Dogfen lywodraethol yr elusen	61	47	66	79	89
Cofnodion cyfarfodydd ymddiriedolwyr blaenorol	69	60	72	80	89
Taith/proses sefydlu ffurfiol	32	15	32	62	75
Ddim un o'r rhain	13	19	10	4	2

Pa archwiliadau sy'n cael eu cynnal ar ddarpar ymddiriedolwyr cyn eu penodi?

Gofynnwyd i'r elusennau nodi a oeddent yn cynnal unrhyw archwiliadau ar ddarpar ymddiriedolwyr cyn eu penodi, er enghraifft archwiliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Tabl 7: Ydy archwiliadau'n cael eu cynnal ar ymddiriedolwyr newydd?

A oes archwiliadau?	Cyfanswm %	Bach %	Canolig %	Mawr %	Mawr iawn %
Oes	23	14	27	30	43
Nac oes	75	83	71	69	56
Heb ddweud	2	3	2	1	1

Atodiad C

Rhestr termau

Mae **bwrdd ymddiriedolwyr** yn cyfeirio at gorff llywodraethu'r elusen. Gall gael ei alw'n bwyllgor rheoli, yn bwyllgor gweithredol neu'n bwrdd cyfarwyddwyr hefyd, neu gall fod rhyw deitl arall ganddo.

Defnyddiwr yw unrhyw un sy'n defnyddio neu sy'n cael budd o wasanaethau'r elusen neu ei chyfleusterau, wedi'u darparu yn wirfoddol neu fel gwasanaeth dan gontract.

Mae **dogfen lywodraethol** yn unrhyw ddogfen sy'n pennu dibenion yr elusen ac, fel arfer, sut y caiff ei gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, yn gyfansoddiad, yn femorandwm ac erthyglau cwmni, yn drawsgludiad, yn ewyllys, yn Siartr Frenhinol, yn gynllun y Comisiynwyr neu'n ddogfen ffurfiol arall.

Diffinnir **elusen fach** yn fras yn nhermau ei hincwm. Os oes incwm blynyddol o £10,000 neu lai gan elusen wedi'i gofnodi ar ein cronfa ddata yn ei blwyddyn ariannol lawn ddiwethaf, byddwn yn ei hystyried yn elusen fach. Mae bron 100,000 o elusennau yng Nghymru a Lloegr wedi'u cynnwys yn y categori hwn.

Mae **tor-ymddiriedaeth** yn digwydd pan fydd ymddiriedolwyr yn gweithredu'n groes i delerau eu dogfen lywodraethol. Gall ymddiriedolwr sy'n cyflawni tor-ymddiriedaeth fod yn gyfrifol yn bersonol am rwymedigaethau sy'n codi gan neu ar ran yr elusen, neu wneud iawn am unrhyw golled i'r elusen.

Ymddiriedolwyr elusennau yw'r bobl sy'n gyfrifol dan ddogfen lywodraethol yr elusen am reoli gweinyddiad yr elusen (adran 97(1) Deddf Elusennau 1993). Gallant gael eu galw'n ymddiriedolwyr, ymddiriedolwyr rheoli, aelodau pwyllgor, llywodraethwyr, neu gyfarwyddwyr, neu gall fod rhyw deitl arall ganddynt. Yn achos cymdeithas anghorfforedig, aelodau'r pwyllgor gwaith neu'r pwyllgor rheoli yw ei hymddiriedolwyr elusen. Yn achos cwmni elusennol, y cyfarwyddwyr yw'r ymddiriedolwyr.

Atodiad Ch

Adnoddau i ymddiriedolwyr

Mae llawer o adnoddau y gall ymddiriedolwyr elusennau eu defnyddio wrth recriwtio, dewis a sefydlu. Er nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr neu gyflawn, mae'n cynnig trosolwg da a man cychwyn defnyddiol.

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr

Mae cyfrifoldeb am elusennau wedi'i rannu rhwng ein pedair swyddfa. Mae elusennau sydd ag incwm o £10,000 neu lai yn gyfrifoldeb yr Uned Elusennau Bach a leolir yn swyddfa Lerpwl. Cewch wybodaeth bellach am elusennau o unrhyw faint o'r Comisiwn yn:

Llundain

Harmsworth House
13-15 Bouverie Street
Llundain EC4Y 8DP

Lerpwl

3ydd a 4ydd Llawr
12 Princes Dock
Princes Parade
Lerpwl L3 1DE

Casnewydd

8fed Llawr
Tŷ Clarence
Clarence Place
Casnewydd
De Cymru NP19 7AA

Taunton

Woodfield House
Tangier
Taunton
Gwlad yr Haf TA1 4BL

Mae **Canolfan Gyswllt y Comisiwn Elusennau**

yn darparu cyngor cyffredinol ar ystod eang o faterion:

Ffôn: 0845 300 0218
Minicom: 0845 300 0219
E-bost: enquiries@charitycommission.gsi.gov.uk
Gwefan: www.charitycommission.gov.uk

Active Communities Unit (ACU)

Sefydlwyd ACU gan y Swyddfa Gartref i hybu datblygu'r sector gwirfoddol a chymunedol ac mae'n annog pobl i gymryd rhan weithredol yn eu cymunedau, yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig.

Active Communities Unit
1st Floor, Peel Building
2 Marsham Street
Llundain SW1P 4DF

Ffôn: 020 7035 5328
E-bost: public_enquiry.acu@homeoffice.gsi.gov.uk
Gwefan: www.homeoffice.gov.uk

CR Search and Selection

Ymgynghoriaeth recriwtio ac ymchwil yw hon.

CR Search and Selection
40 Roseberry Avenue
Llundain EC1R 4RX

Ffôn: 020 7833 0770
E-bost: info@crsearchandselection.com
Gwefan: www.crsearch.co.uk

Cyngor Cenedlaethol Cyrff Gwirfoddol (NCVO)

Mae NCVO yn darparu gwybodaeth ar godi arian a materion rheolaeth ac amrywiaeth o wasanaethau cynnal cyffredinol.

Mae ei wefan hefyd yn cynnwys manylion Grŵp Rhwydwaith Brocera Ymddiriedolwyr sy'n rhwydwaith o wasanaethau brocera neu leoliad sy'n paru ymddiriedolwyr â swyddi gwag ar fyrddau sefydliadau gwirfoddol. Mae aelodau'n cofrestru eu gwasanaeth brocera mewn cyfeirlyfr a gallant gyrchu adnoddau recriwtio a sefydlu ymddiriedolwyr yng ngwefan y Banc Ymddiriedolwyr (www.trusteebank.org.uk).

Cyngor Cenedlaethol Cyrff Gwirfoddol
Regent's Wharf
8 All Saints Street
Llundain N1 9RL

Ffôn: 020 7713 6161
Desg gymorth: 0800 2798 798
E-bost: ncvo@ncvo-vol.org.uk
Gwefan: www.ncvo-vol.org.uk

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

Mae'r sefydliad hwn yn cynrychioli buddiannau ac yn ymgyrchu dros fuddiannau sefydliadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chymunedau yng Nghymru. Mae'n darparu amrywiaeth gynhwysfawr o wybodaeth, ymgynghoiaeth, cyllid, gwasanaethau rheoli a hyfforddiant.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig
Sgwâr Mount Stuart
Bae Caerdydd
Caerdydd CF10 5FH

Ffôn: 0870 607 1666
E-bost: help@wcva.org.uk
Gwefan: www.wcva.org.uk

Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol (NACVS)

Corff mantell cenedlaethol Cynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol Lloegr yw hwn. Mae Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol lleol yn darparu cyngor, cymorth a gwybodaeth i sefydliadau gwirfoddol ac elusennau yn ei ardal, gan gynnwys cymorth gyda chofrestru elusen. Gall y Gymdeithas Genedlaethol gysylltu elusennau â'i Chyngor lleol.

Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol
177 Arundel Street
Sheffield S1 2NU

Ffôn: 0114 278 6636
E-bost: nacvs@nacvs.org.uk
Gwefan: www.nacvs.org.uk

Cymdeithas Prif Weithredwyr Cyrff Gwirfoddol (ACEVO)

Mae ACEVO yn darparu adnoddau arfer dda a gwybodaeth am bynciau trafod y sector.

Cymdeithas Prif Weithredwyr Cyrff Gwirfoddol (ACEVO)
83 Victoria Street
Llundain SW1H OHW

Ffôn: 0845 345 8481
E-bost: info@acevo.org.uk
Gwefan: www.acevo.org.uk

Cymdeithas Sefydliadau Elusennol (ACF)

Mae ACF yn hybu ac yn cefnogi gwaith ymddiriedolaethau a sefydliadau rhoi grantiau elusennol.

Cymdeithas Sefydliadau Elusennol (ACF)
Central House
14 Upper Woburn Place
Llundain WC1H 0AE

Ffôn: 020 7255 4499
E-bost: acf@acf.org.uk
Gwefan: www.acf.org.uk

Cysylltiadau Cymunedau Busnes (BCC)

Mae BCC yn elusen a ffurfiwyd yn benodol i helpu elusennau eraill cael mwy o gymorth o fyd busnes.

Cysylltiadau Cymunedau Busnes (BCC)
Gainsborough House
2 Sheen Road
Richmond upon Thames
Surrey TW9 1AE

Ffôn: 020 8973 2390
E-bost: info@bcconnections.org.uk
Gwefan: www.bcconnections.org.uk

Directory of Social Change (DSC)

Mae'n hybu newid cymdeithasol cadarnhaol ac yn darparu ystod eang o adnoddau i ymddiriedolwyr.

Llundain
Directory of Social Change
24 Stephenson Way
Llundain NW1 2DP
Ffôn 020 7391 4800

Lerpwl
Directory of Social Change
Federation House
Hope Street
Lerpwl L1 9BW
Ffôn 0151 708 0117

Ffôn: 08450 77 77 07
E-bost: (Llundain) info@dsc.org.uk,
(Lerpwl) north@dsc.org.uk
Gwefan: www.dsc.org.uk

Institute of Fundraising

Mae'r Sefydliad Codi Arian yn ceisio hybu'r safonau uchaf ym maes arfer codi arian.

Institute of Fundraising
Park Place
12 Lawn Lane
Llundain SW8 1UD

Ffôn: 020 7840 1000
E-bost: enquiries@institute-of-fundraising.org.uk
Gwefan: www.institute-of-fundraising.org.uk

REACH

Sefydliad sy'n paru sgiliau pobl brofiadol ag angen sefydliadau gwirfoddol.

REACH
89 Albert Embankment
Llundain SE1 7TP

Ffôn: 0207 582 6543
E-bost: mail@reach-online.org.uk
Gwefan: www.reach-online.org.uk

Rhwydweithiau Ymddiriedolwyr Elusennau

Mae'r elusen hon yn cynnig cyd-gymorth i ymddiriedolwyr drwy hybu a datblygu grwpiau rhwydweithio hunangymorth i ymddiriedolwyr gan ddarparu ymgynghoriaeth gost-effeithiol a mentora ymhlith cyfoedion.

Rhwydweithiau Ymddiriedolwyr Elusennau
PO Box 633
Godalming GU8 5ZX

Ffôn: 01428 682252
E-bost: info@trusteenetworks.org.uk
Gwefan: www.trusteenetworks.org.uk

Sefydliad Cymorth Elusennau (CAF)

Mae CAF yn helpu sefydliadau di-elw yn y DU a thramor i gynyddu, rheoli a gweinyddu eu hadnoddau.

Sefydliad Cymorth Elusennau
25 Kings Hill Avenue
Kings Hill
West Malling
Caint ME19 4TA

Ffôn: 01732 520 000
E-bost: enquiries@cafonline
Gwefan: www.cafonline.org

Sefydliad Lleiafrifoedd Ethnig (EMF)

Mae EMF yn datblygu adnoddau i sefydliadau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys cyfleoedd rhwydweithio a hyfforddi a chofrestr ymddiriedolwyr.

Pencadlys Sefydliad Lleiafrifoedd Ethnig
Boardman House
64 Broadway
Stratford
Llundain E15 1NG

Ffôn: 020 8432 0000
E-bost: enquiries@emf-cemvo.co.uk
Gwefan: www.ethnicminorityfund.org.uk

Sefydliad yr Ysgrifenyddion a'r Gweinyddwyr Siartredig (ICSA)

Mae ICSA yn darparu gwybodaeth a chanllawiau arfer dda ynghylch materion llywodraethu sy'n effeithio ar y sector. Mae ganddynt hefyd gofrestr o ymddiriedolwyr sydd ar gael i elusennau y mae arnynt angen ymddiriedolwyr newydd.

Sefydliad yr Ysgrifenyddion a'r Gweinyddwyr Siartredig
16 Park Crescent
Llundain W1B 1 AH

Ffôn: 020 7580 4741
E-bost: info@icsa.co.uk
Gwefan: www.icsa.org.uk

Sgiliau Elusennau

Mae Sgiliau Elusennau yn darparu cronfa ddata arbenigol, llinellau cymorth dros y ffôn, seminarau a chylchlythyron i'w aelodau yn y sector gwirfoddol.

Sgiliau Elusennau
PO Box 43520
Llundain SW15 1WZ

Ffôn: 0208 785 3327
E-bost: info@charityskills.org
Gwefan: www.charityskills.org

Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)

Sefydlwyd CRB, asiantaeth weithredol y Swyddfa Gartref, i helpu sefydliadau gwneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel. Mae'n helpu cyflogwyr adnabod ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer gwaith arbennig, yn enwedig gwaith sy'n cynnwys dod i gysylltiad â phlant neu aelodau eraill y gymdeithas sy'n agored i niwed. Mae'n darparu Gwasanaeth Datgeliad, sy'n cynnig mynediad i gofnodion a gedwir gan yr heddlu.

Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)
Gwasanaethau Cwsmeriaid
CRB
PO Box 110
Lerpwl L69 3EF

Ffôn: 0870 90 90 811
(Llinell cais am ddatgeliad: 0870 90 90 844)
Gwefan: www.crb.gov.uk
(Gwefan gwybodaeth am ddatgeliad: www.disclosure.gov.uk)

Tŷ'r Cwmnïau

Mae pob cwmni cyfyngedig, gan gynnwys cwmnïau elusennol, yn y DU wedi'u cofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau. Darperir seminarau i gyfarwyddwyr newydd eu penodi ac ysgrifenyddion cwmnïau.

Caerdydd
Ffordd y Goron
Caerdydd CF14 3UZ

Llundain
PO Box 29019
21 Bloomsbury Street
Llundain WC1B 3XD

Caeredin
37 Castle Terrace
Caeredin EH1 2EB

Ffôn: 0870 333 3636
E-bost: enquiries@companies-house.gov.uk
Gwefan: www.companieshouse.gov.uk

Uned Penodiadau Cyhoeddus (PAU)

Am wybodaeth ynghylch penodiadau cyhoeddus a chyrff cyhoeddus.

Uned Penodiadau Cyhoeddus
Cabinet Office
Admiralty Arch
The Mall
Llundain SW1A 2WH

Ffôn: 0845 00 00 040
E-bost:
public.appointments.unit@cabinet-office.x.gsi.gov.uk
Gwefan: www.publicappointments.gov.uk

VolResource

Mae'r adnodd rhyngrwyd yn unig hwn i elusennau yn cynnig cysylltiadau cyflym â sefydliadau defnyddiol sy'n ymwneud â gweinyddu elusennau yn effeithiol.

E-bost: info@volresource.org.uk
Gwefan: www.volresource.org.uk

Cyfnodolion, cylchgronau a phapurau newydd

The Corporate Citizenship Company

Mae'r cwmni hwn yn darparu trosolwg a chrynodeb o faterion cyfredol, trwy astudiaethau achos yn bennaf.

E-bost: mail@corporate-citizenship.co.uk
Gwefan:
www.corporate-citizenship.co.uk/publications

Charities Management
Mitre House Publishing
The Clifton Centre
110 Clifton Street
Llundain EC2A 4HD

Ffôn: 020 854 27766
Gwefan: www.charitiesmanagement.com

Charity Finance
3 Rectory Grove
Llundain SW4 0DX

Ffôn: 020 7819 1200
E-bost: rcoley@charityfinance.co.uk
Gwefan: www.charityfinance.co.uk

Charity Times
Ffôn: 020 7426 0496 / 0123
Gwefan: www.charitytimes.com

The Guardian

Mae adran Society yn The Guardian yn arbennig o ddefnyddiol.

Gwefan: www.SocietyGuardian.co.uk

Rhwydwaith Cymru (Network Wales)

Cysylltwch â WCVA am fanylion.

Third Sector

Ffôn: 020 8606 7500
E-bost: subscriptions@haynet.com
Gwefan: www.thirdsector.co.uk

Sector Gwirfoddol

Cysylltwch â NCVO am fanylion - gweler uchod.

Atodiad D

Llyfryddiaeth

Active Communities Unit (2004) *ChangeUp, the Capacity Building and Infrastructure Framework for the Voluntary and Community Sector*

Akpeki, T (2001) *Involving Young People* (NCVO)

Akpeki, T (2001) *Recruiting and Supporting Black and Minority Ethnic Trustees* (NCVO)

Y Comisiwn Elusennau (2003) *Cerrig Milltir: Rheoli Digwyddiadau Allweddol ym Mywyd Elusen* (RS6)

Y Comisiwn Elusennau (2003) *Y Comisiwn Elusennau a Rheoleiddio*

Y Comisiwn Elusennau (2003) *Cydweithio a Chyfuniadau* (RS4)

Y Comisiwn Elusennau (2000) *Cynnwys Defnyddwyr: Buddiolwyr sy'n dod yn Ymddiriedolwyr* (CC24)

Y Comisiwn Elusennau (2004) *Diwygio Dogfennau Llywodraethol Elusennau: Gorchmynion a Chynlluniau* (CC36)

Y Comisiwn Elusennau (2004) *Elusennau Bach: Trosglwyddo Eiddo, Newid Ymddiriedolaethau, Gwario Cyfalaf* (CC44)

Y Comisiwn Elusennaun (2004) *Neuaddau Pentref a Chanolfannau Cymunedol* (RS9)

Y Comisiwn Elusennau (2004) *Nodweddion Elusen Effeithiol* (CC60)

Y Comisiwn Elusennau (2005) *Cael Hyd I Ymddiriedolwyr Newydd: Yr hyn y mae angen i elusennau wybod* (CC30)

Y Comisiwn Elusennau (2002) *Recriwtio, Dewis a Sefydlu Ymddiriedolwyr* (RS1)

Y Comisiwn Elusennau (2003) *Talu Ymddiriedolwyr Elusennau* (CC11)

Y Comisiwn Elusennau (2005) *Yr ymddiriedolwr hanfodol: yr hyn y mae angen i chi wybod* (CC3)

Dyer, F and Jost, U (2002) *Recruiting Volunteers: Attracting the People you Need* (Directory of Social Change)

Eastwood, M (2001) *The Charity Trustee's Handbook* (Directory of Social Change)

Morris, D and Warburton, J (Editors) (2003) *Charities, Governance and the Law: The Way Forward*

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cydweithredu i gynhyrchu'r adroddiad hwn, yn enwedig yr elusennau a roddodd eu hamser i gymryd rhan yn ein harolwg neu a roddodd ganiatâd i ddefnyddio eu helusennau fel astudiaethau achos.

Diolch hefyd i Linda Laurance o Rwydweithiau Ymddiriedolwyr Elusennau am ei chyngor a'i chymorth.

Gallwch gael fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

Mae modd cyrchu'r cyhoeddiad hwn ar wefan y Comisiwn Elusennau hefyd:
www.charitycommission.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2005. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a'r logos adrannol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i argraffu ar bapur sy'n dod o adnoddau cynaliadwy yn unig ac mae'n hollol rydd rhag clorin.

Cyfeirnod archeb y Comisiwn Elusennau: RS10 – Rhwydd hynt trwy ddechrau da: Recriwtio a Sefydlu Ymddiriedolwyr, Adroddiad Ymchwil. Gorffennaf 2005.

Dyluniwyd gan Bang-on.net